LC1300

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Iawndal Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) Defaid a Geifr (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu swm yr iawndal sydd yn daladwy pan gaiff dafad neu afr ei ladd oherwydd y credir iddo gael ei heintio ag enseffalopathi sbyngffurf trosglwyddadwy neu ei ladd yn dilyn cadarnhad o haint o’r fath.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 1 o’r testun Saesneg, teitl y Rheoliadau yw "The Sheep and Goats Transmissible Encephalopathies (TSE) Compensation (Wales) Regulations 2006". Yn y testun Cymraeg, defnyddir "Enseffalopathi". (Dyma sut y mae’n ymddangos ym mhenawdau’r Rheoliadau). [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Yn rheoliad 2 o’r testun Saesneg, caiff y diffiniad o "TSE" ei ddrafftio fel "transmissible spongiform encephalopathy". Yn y testun Cymraeg, caiff y diffiniad ei ddrafftio yn y lluosog. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Mae rheoliad 3 (3) yn darparu mai'r iawndal a delir mewn perthynas â dafad neu afr lle nad oes cadarnhad ei fod wedi'i heintio â TSE yw'r swm uchaf o'r rhai eraill a nodwyd. Dylid drafftio'r rheoliad i nodi mai hwn yw'r uchaf o (a) "neu" (b) ac nid yr uchaf o (a) "a" (b). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Drwy gydol testun Cymraeg y Rheoliadau, caiff "enseffalopathïau" ei sillafu'n anghywir fel "enseffalopathiau". [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Gellir cywiro'r gwallau drafftio a'r anghysondebau a nodwyd uchod drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau ynghylch y pwyntiau fformadu sy'n addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mehefin 2006